**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU**
**21/06/2018 LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN AM 7.00PM**

**1. CROESO'R CADEIRYDD**
Croesawodd y Gyngh. Angharad Jones bawb i'r cyfarfod misol.

**2. YN BRESENNOL:** Y Gyngh. Angharad Jones (Cadeirydd); Y Gyngh. Clare Hughes; Y Gyngh. Laura Jones; Y Gyngh. Mair Jones; Y Cyngh. Alun Price-Jones; Y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd-Davies &

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Ymddiheurodd y Cyngh. John Jones, y Cyngh. Non Jones, y Cyngh. Wil Lewis, y Cyngh. Gareth Owen, y Cyngh. Doug Rowbotham a'r Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans am eu hanallu i fynychu'r Cyfarfod.

**4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
Dywedodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans, a oedd yn absennol o'r Cyfarfod y gallai aelodau drosglwyddo unrhyw gonsyrn at ei sylw.

**5. DATGAN DIDDORDEB:** Ni ddatgelwyd unrhyw ddiddordeb.

**6. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD O'R 17eg O FAI 2018**
**CYNIGIWYD** (Y Cyngh. Alun Price Jones) **EILIWYD** (Y Gyngh. Mair Jones) a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol fod Cofnodion y Cyfarfod o'r 17eg o Fai 2018 yn gywir ac arwyddwyd fel rhai cywir gan y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones.
**Arwahan i Gofnod: 11.1**
**Dylid ddarllen,** Syrthiodd ffens i'r afon yng nghyffiniau Nant y Cŵn a allai fod yn rhwystr.

**7. MATERION YN CODI**

**7.1 Cais am Bont i gerddwyr ym Mhontrhydfendigaid**
Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth gan Gyngor Sir Ceredigion, ers y cyfarfod safle o'r 9fed Chwefror 2018 rhwng Mr Igho Emeseh, CS Ceredigion a chynrychiolwyr y Cyngor Cymuned. Trafodwyd codi pont i gerddwyr ger y bont bresennol a rhyddhau tir at y diben hwn. ***Dim Datblygiadau i'w hadrodd.***

**7.2 Cais i osod palmant ger y Lloches-Bws, Penrhiw, Ffair Rhos**
Gwnaeth y Cadeirydd y Gyngh. Clare Hughes gyfeirio Mr Igho Emeseh, i'r cais i osod palmant ger y Lloches Bws ardal Penrhiw, yn ystod y cyfarfod safle yn ymwneud â phrif bont y Pentref o'r 9fed Chwefror 2018. Cytunodd perchnogion Penrhiw i roi fel rhodd, rhan o dir at y diben hwn; bydd angen symud polyn. *Disgwylir datblygiadau pellach.*

**7.3 Rheolau Sefydlog y Cyngor Cymuned:** i'w hystyried yn ystod cyfarfod Mis Medi'r Cyngor Cymuned.

**7.4 Ardal Chwarae Neuadd Pantyfedwen: Arolwg Rospa 2017**: Mae Archwiliad Chwarae Rospa wedi'i drefnu ar gyfer haf 2018. Ystyriwyd offer chwarae ar gyfer plant hŷn; gellir o bosibl ceisio grantiau.

**7.5** **Plac Jiwbilî Diemwnt Ei Mawrhydi Y Frenhines Elisabeth 11**: i arddangos plac gerllaw'r goeden Dderwen. *Mae Mr Bennett yn ymwneud â'r dasg (dwy-ieithog)*

**7.6** **Cŵn yn Baeddu:** penderfynodd y Cyngor Cymuned i gymryd ymagwedd ragweithiol tuag at y broblem barhaus o gŵn yn baeddu yn y Pentref. Archebwyd chwistrellu lliw i'w defnyddio. Y mae'r Gyngh. Clare Hughes a'r Gyngh. Angharad Jones wedi clustnodi sylw i'r mater.

**7.7** **Y Fenter Ddi-blastig:** Sefydlir Grŵp Llywio yn y Pentref i gynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned er mwyn tanysgrifio i'r Fenter Ddi-blastig. Bu i'r Cyngor Tref drefnu digwyddiad casglu sbwriel o fewn y pentref; gellir o bosibl trefnu casgliad sbwriel ar lan yr afon yn ystod y dyfodol.

**7.8** **Glanhau a Thrwsio'r Gofeb Rhyfel,** Ponthrydfendigaid: ystyriwyd y dyfynbrys i drwsio'r gofeb a'i ddwyn yn ôl i "safon arddangos" gan Kieran Elliott; gellid ceisio dyfynbrisiau pellach. Cytunwyd i geisio Grant Coffa Rhyfel. **PENDERFYNWYD:** trafod yng nghyfarfod arbennig y Cyngor Cymuned a drefnwyd ar gyfer nos Llun 25ain Mehefin 2018 am 8pm yn Neuadd Pantyfedwen.

**7.9** **Un Llais Cymru (ULlC):** Roedd y Gyngh. Laura Jones wedi mynychu cyfarfod chwarterol diweddar yn Aberaeron ar nos Fercher 20fed Mehefin, 2018. Roedd tai cymdeithasol gwledig wedi ymddangos fel eitem ar yr Agenda.

Rhoddodd Elen Grantham, Hwylusydd Tai Gwledig ardal Ceredigion a'r ardal gyfagos, gyflwyniad ar yr angen am dai cymdeithasol mewn trefi a chymunedau gwledig, lle mae prisiau tai a rhent yn tueddu i fod yn uwch na'r cyflogau.

Mae diffyg tai fforddiadwy, ynghyd â llai o gyfleoedd gwaith, yn golygu bod Ceredigion yn colli nifer uchel o'i bobl ifanc. Mae hyn yn effeithio'n sylweddol ar ein cymunedau, gyda llai yn mynychu'r ysgolion, llai o bobl i ddefnyddio mwynderau lleol ac ati, sydd yn ei dro yn lleihau swyddi, ac mae'r cylch yn parhau.

Nid oedd y cyflwyniad yn canolbwyntio'n unig ar y tai cymdeithasol safonol ond hefyd ar gyfleoedd eraill megis 'Rhannu Perchnogaeth', 'Cydraddoldeb Cyfartal a Phrynu Tai' a 'Tai Fforddiadwy i'w Gwerthu' i bobl leol yn eu cymunedau lleol. *Disgwylir Cofnodion cyfarfod Un Llais Cymru.*

## 8. GOHEBIAETH

**8.1** **Roedd Pobl Ieuanc y Pentref wedi cysylltu â'r** Cyng. Clare Hughes i ofyn tybed a ellid defnyddio rhan o dir, o fewn y Pentref, at ddibenion beicio. Ar hyn o bryd, nid oes ardal o'r fath yn bodoli o fewn y Pentref ac ystyriwyd y briffordd yn anniogel. Gallai'r tir hefyd fod yn ardal chwarae i blant. Penderfynwyd trafod y mater ymhellach yng nghyfarfod arbennig y Cyngor Cymuned a drefnwyd ar gyfer nos Lun 25ain Mehefin 2018 am 8pm yn Neuadd Pantyfedwen.

**8.2** **Gohebiaeth gan Mr Haydn Lewis,** Cyngor Sir Ceredigion, yn gofyn am ragor o wybodaeth am y llwybr cerdded cyhoeddus, a oedd yn arfer rhedeg trwy darn o dir a elwir yn Glan-yr-Afon. Cytunwyd bod Cynghorwyr yn ymweld â'r ardal dan sylw i geisio gwybodaeth bellach.

**8.3** **Ras yr Iaith:** Ras yr Iaith Gymraeg 7.06.2018, Aberystwyth dan ofal *Cered.*

**8.4** **Gohebiaeth Eraill: er gwybodaeth yn unig.**

**9. CYLLID**

**9.1 Ysgoloriaeth y Dywysoges Sapieha dan ofalaeth Cyngor Cymuned Ystrad Fflur**: mae cyfrif ar wahân yn bodoli a derbyniwyd y llyfr-siec. Gwobr o £10 a £10 ychwanegol os yw 2 ddisgybl yn gymwys ar gyfer y wobr. Dyddiad Diwrnod Gwobrwyo: Dydd Mercher 18fed Gorffennaf 2018.

**9.2 Cyflog y Clerc** Mehefin 2018 £155.07.

**9.3 Cyllid a Thollau EM Mehefin** 2018 £38.76.

**9.4 Grant Gwyrdd – Cyngor Sir Ceredigion**
Cyflwynwyd yr anfonebau gerbron y Cyngor Sir. Disgwylir gwybodaeth pellach.

**9.5 Mae Mrs Enid Hughes: wedi cynnal archwiliad mewnol Cyngor Cymuned Ystrad Fflur** yn ystod y mis diwethaf ac wedi gwneud rhai awgrymiadau (am ffi o £100). Llofnodwyd y Ffurflen Flynyddol Grant Thornton ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2017-18, gan y Cadeirydd a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Y Ffurflen Archwilio Allanol i gyrraedd y Cyfrifwyr Grant Thornton erbyn y 9fed o Orffennaf 2018.
£4,765.13 a gariwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon, 1.04.2018.

**10. CYNLLUNIO**

**10.1 Cyngor Sir Ceredigion**: **Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion cyfarfod diweddar.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

**11.1 Mynedfa Stryd y Felin:** tyllau gweladwy ar y ffordd: i adrodd at sylw Cyngor Sir Ceredigion.

**11.2 Adroddwyd bod beiciau / cerbydau'n teithio** ar gyflymder gormodol drwy'r Pentref.
Cytunwyd i brynu 2 arwydd (Cynigiwyd gan y Cyngh. Alun Price-Jones ac eiliwyd gan y Cyngh. Clare Hughes) yn datgan, "Gyrrwch yn ofalus drwy'r Pentref" (dwyieithog). i geisio gwybodaeth pellach gan Alan, Albion House. Gellid sefydlu Gwyliad Cyflymder Cymunedol ble mae'r Heddlu'n darparu hyfforddiant i grŵp o bobl i fonitro cyflymder ac adrodd yn ôl at sylw'r Heddlu.

**11.3 Mae angen trwsio'r fainc gyferbyn â 12/13 Maesydderwen**.
i adrodd at sylw CSC.

**11.4 Mae angen gwaith cynnal a chadw ar yr Heol sy'n arwain i Maesydderwen:** i adrodd at sylw Tai Ceredigion.

**11.5 Cytunwyd i drafod trefniadau yn ymwneud â Gwasanaeth Sul y Cofio** blynyddol yr 11eg o Dachwedd yn ystod cyfarfod mis Medi y Cyngor Cymuned, gan fod eleni yn nodi canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.
.

***Daeth y cyfarfod i ben am* 9.37pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Nos Iau 19ain o Orffennaf 2018 at 7pm.**

=====================================================
(Arwyddwyd/Dyddiad )